

Y Rhaglen Mwyngloddiau Metel

Chwefror 2024

Cefndir

Mae mwyngloddiau metel segur yn achosi llygredd sylweddol yng Nghymru, gan niweidio ecoleg afonydd gyda metelau fel cadmiwm, plwm, sinc a chopr. Mae tua 1,300 o fwyngloddiau metel segur yng Nghymru yr amcangyfrifir eu bod yn effeithio ar 700 cilometr o afonydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Awdurdod Glo yn gweithio gyda'i gilydd ar y Rhaglen Mwyngloddiau Metel i fynd i'r afael â'r etifeddiaeth lygrol hon. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru.

Prif nod y rhaglen, lle bo hynny'n ymarferol yn dechnegol ac yn ariannol, yw lleihau llygredd o fwyngloddiau metel segur er mwyn gwella cyflwr ein hafonydd, er budd yr amgylchedd, pobl a'r economi.

Wrth wneud hynny, bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, ac yn gwella buddion llesiant cymunedol, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cyd-destun y Prosiect

Mae Mwynglawdd Dylife yn fwynglawdd plwm hanesyddol sydd 13 cilometr i'r gogledd-orllewin o Lanidloes. Gadawyd y mwynglawdd yn niwedd y 1920au ac mae'r gweithfeydd mwyngloddio tanddaearol a'r dyddodion arwyneb o wastraff mwyngloddio yn creu llygredd metelau, gan gynnwys plwm, cadmiwm a sinc.

Mae Afon Twymyn ac un o'i hisafonydd, Nant Dropyns, yn llifo trwy'r safle, gan dderbyn dŵr ffo a gollyngiadau sy'n llawn metel ac sy'n effeithio ar ansawdd dŵr ac ecoleg.

Mae hyn yn golygu bod Afon Twymyn yn methu â chyflawni'r 'statws da' sy'n ofynnol gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yr holl ffordd i'w haber ag Afon Dyfi.

Mae adeiladu arglawdd ffordd modern a draeniad dŵr wyneb cysylltiedig yn y 1970au wedi cynyddu'r effeithiau sy'n deillio o'r mwynglawdd ac yn arwain at lifogydd yn nyffryn Afon Twymyn yn ystod stormydd.

Nod prosiect Dylife yw mynd i'r afael â'r prif ffynonellau llygredd, gwella'r draeniad, a chreu tirffurf sefydlog ar y safle yn y tymor hir.

Cynnydd y Prosiect

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn monitro'r safle ac yn casglu gwybodaeth i ddeall yn well ffynonellau llygredd a sut maent yn effeithio ar yr afonydd sy'n rhedeg drwy'r safle. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i ddatblygu dyluniad amlinellol ar gyfer cyfres o waith y mae angen ei wneud er mwyn cyflawni'r amcanion lleihau llygredd.

Yn 2020, gwnaethom gwblhau astudiaeth ddichonoldeb i goladu gwybodaeth berthnasol a sefydlu beth y gellid ei wneud i sicrhau'r ataliad mwyaf posibl o lygredd a manteision amgylcheddol eraill, wrth hefyd ystyried cyfyngiadau cost a dynodi megis amddiffyniadau yn ymwneud ag ecoleg a threftadaeth.

Rydym hefyd wedi cwblhau asesiadau archaeolegol, ecolegol, tirweddol a

hydrolegol, arolygon topograffig, a gwaith i fonitro ansawdd dŵr.

Cwblhawyd gwaith peirianyddol dros dro yn ddiweddar, gan gynnwys gosod rholiau creigiol (bagiau'n llawn cerrig) ar hyd rhan isaf Nant Dropyns lle mae'n cwrdd ag Afon Twymyn. Mae'r gwaith wedi lleihau'r erydiad ar unwaith o ryw faint o ddeunydd sy'n llawn o fetel, gan atal hyn rhag symud i lawr yr afon a llygru'r cwrs dŵr. Bydd y gwaith hefyd yn gwella draeniad dŵr wyneb.

Mae angen cyfuniad o'r opsiynau a gyflwynir isod i reoli'r ystod o ffynonellau llygredd ym Mwynglawdd Dylife yn llwyddiannus.

Byddem yn croesawu eich mewnbwn wrth i ni symud ymlaen i greu dyluniad manwl, yn ogystal ag unrhyw gyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach sydd ar gael.

Leinin/sêl ar sianel yr afon

Rheoli cyrsiau dŵr, e.e. opsiynau gwahanu/dargyfeirio

Opsiynau Lliniaru

Rheoli dŵr wyneb / draenio / creu ceuffosydd

Amddiffyn pentyrrau sborion rhag erydiad

Draenio pentyrrau sborion



Treftadaeth ac Ecoleg Mwyngloddio

Saif Mwynglawdd Dylife o fewn ardal o werth a sensitifrwydd archaeolegol ac ecolegol uchel, sy'n ymwneud â'r mwynglawdd a'i bentyrrau sborion cysylltiedig a'r dirwedd o'i amgylch.

Mae nifer o blanhigion prin yn tyfu ar y pentyrrau sborion sy'n llawn metel, gan gynnwys cennau a bryoffytau, sy'n ffurfio cynefin 'glaswelltir metelaidd'. Mae'r safle'n gorwedd mewn ardal o gynefin mosaig agored, gyda'r mathau o lystyfiant mosaig o arwyddocâd ecolegol yn cynnwys sborion mwyngloddio, creigiau noeth a sgrï (pob un, o bosib, yn cynnwys glaswelltir metelaidd), rhostir sych wedi'i ddominyddu gan eithin, glaswelltir asidig, tyfiant asidig a dŵr agored. Mae'r cynefin mosaig agored a'r glaswelltir metelaidd wedi'u dynodi'n Gynefinoedd Pwysig Iawn.

Mae ardal ddwyreiniol Mwynglawdd Dylife wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), a ddyfynnir oherwydd ei diddordeb daearegol sy'n gysylltiedig â'r pentyrrau sborion.

Lleolir y safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Cwm Clywedog gyda'i werth yn bennaf gysylltiedig â'r lleoliad treftadaeth.

Mae ganddo botensial archaeolegol uchel yn ymwneud â gweithgarwch mwyngloddio hanesyddol, gydag olion sensitif helaeth sydd angen asesiad archaeolegol pellach.

Y Camau Nesaf

Bydd dyluniad amlinellol y camau ymyrryd a nodir gan yr astudiaeth ddichonoldeb yn cael eu symud ymlaen i ddyluniad manwl, gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae'r gwaith yn debygol o gael ei gwblhau o dan ganiatâd datblygu a ganiateir a chyda mathau eraill o ganiatâd rheoleiddio (e.e. caniatâd SoDdGA) yn ôl yr angen.

Mae prif elfennau'r gwaith arfaethedig yn cynnwys rhoi leinin yn y cwrs dŵr, draeniad a chwlfwr newydd, ac ailbroffilio a chapio pentyrrau. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni fesul cam fel y nodir yn yr amserlen ar y dudalen nesaf. Mae'r amserlen yn ddangosol ac yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.

Dilynrir pob cam o'r gwaith gan waith monitro ac asesu i werthuso effeithiolrwydd y gwaith a llywio unrhyw newidiadau i ddyluniad arfaethedig camau'r dyfodol.

Hoffem i'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill chwarae rhan allweddol yn y broses hon.

Byddwn yn cynnal digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn yr ardal leol yn gynnar yn 2024, a bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon yn nes at y dyddiad.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd y prosiect ac yn diweddarau gwefan prosiect Dylife. Gweler isod am fanylion cyswllt.



Yr Amserlen Bresennol

2023 i 2024

Datblygu Dyluniad Manwl - Camau 1 a 2

Digwyddiad ymgynghori â rhanddeiliaid i lywio cynigion dylunio amlinellol.

Parhau i ymgynghori ag ymgynghoreion statudol.

Caffael contractiwr ac ymgynghorydd i ddatblygu Dyluniad Manwl.

Cwblhau'r asesiadau terfynol o'r ecoleg, treftadaeth a'r dirwedd.

2025

Camau Adeiladu 1 a 2

Dechrau adeiladu ymyriadau fesul cam.

Rhoi leinin mewn cyrsiau dŵr, cwlfer newydd, draeniad ffordd.

Monitro parhaus i asesu effeithiolrwydd ymyriadau.

2025 i 2027

Dylunio ac Adeiladu Manwl - Cam 3

Rhoi leinin mewn cyrsiau dŵr a draeniau ffordd newydd - Dylunio Manwl ac adeiladu.

Monitro ac asesu parhaus.

2027 i 2028

Dylunio Manwl ac Adeiladu - Cam 4

Ailbroffilio a chapio tomenni a draeniau newydd - Dylunio Manwl ac adeiladu.

Monitro ac asesu parhaus.

Hyd yma

Ymchwilio ac Asesu

Ymchwiliadau tir.

Arolygon sylfaenol o ecoleg a threftadaeth.

Monitro llif ac ansawdd y dŵr i lywio astudiaeth gwmpasu, rhestr hir o opsiynau ymyrryd, a'r opsiwn a ffefrir.

Cadw mewn Cysylltiad a Sut i Gymryd Rhan

Rydym am glywed gennych wrth i ni symud ymlaen â Phrosiect Mwynglawdd Dylife ac archwilio'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol ehangach y gellir eu datblygu fel rhan o'r strategaeth a ffefrir ar gyfer y safle hwn.

Archwiliwch fwy am Brosiect Mwynglawdd Dylife yn ogystal â'r rhaglen mwyngloddiau metel ehangach trwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:

bit.ly/MwynglawddMetelDylife

bit.ly/LlygreddDŵrMwyngloddiauMetel

Os hoffech chi rannu eich barn neu gael eich ychwanegu at ein rhestr e-bost, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar y manylion isod:

 0300 065 3000

 Dylife@metalmineSwales.co.uk



The Coal Authority



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mae hen fwyngloddiau yn fannau peryglus gyda llawer o beryglon cudd. Mae llawer o'n prosiectau wedi'u lleoli ar dir preifat lle na chaniateir mynediad cyhoeddus heb gymeradwyaeth y tîrffediannwr.

